OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 2797 (Cy.236) (C.93)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2006

*Wedi'i wneud - - 17 Hydref 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 108(1)(b), (2) a (5) o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 1978" ("*the 1978 Act*") yw Deddf Gwaredu Sorod (Amwynder) 1978(**2**);

ystyr "Deddf 1984" ("*the 1984 Act*") yw Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**3**);

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996(**4**);

ystyr "Deddf 2005" ("*the 2005 Act*") yw Deddf Cymdogaethau ac Amgylchedd Glân 2005.

**Darpariaethau Deddf 2005 sy'n dod i rym ar 27 Hydref 2006**

**2.** Daw darpariaethau canlynol Deddf 2005 i rym ar 27 Hydref 2006—

(a) adran 11 (hysbysiad symud);

(b) adran 12 (gwaredu);

(c) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 13 (canllawiau);

(ch) adran 15 (hysbysiad symud);

(d) adran 16 (gwaredu);

(**1**) 2005 p. 16.
(**2**) 1978 p. 3.
(**3**) 1984 p. 27.
(**4**) 1996 p. 20.

(dd) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 17 (canllawiau);

(e) adran 34 (tynnu placardiau a phosteri);

(f) at ddibenion amnewid adran 5 (ond gan eithrio adran 5(2)(d)) o Ddeddf Rheoli Llygredd (Diwygio) 1989(**5**), adran 37 (pwerau gorfodi);

(ff) adran 50 (pŵer i'w gwneud yn ofynnol i berchennog tir symud gwastraff oddi yno);

(g) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 56 (gorchmynion rheoli cŵn: darpariaethau atodol);

(ng) adran 66 ("person priodol");

(h) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 67 (rheoliadau a gorchmynion);

(i) adran 80 (gorchmynion a rheoliadau);

(j) adran 81 (dehongli);

(ll) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 83 (tramgwyddau sŵn: defnyddio derbynebau cosb benodedig);

(m) adran 84 at ddibenion dwyn i rym paragraffau 2, 7(2)(a) a (3), 8(2) a 12(2), (5) a (6) o Atodlen 1 i Ddeddf 2005 (estyn Deddf Sŵn 1996(**6**) i gwmpasu mangreoedd trwyddedig etc.);

(n) adran 86 (gohirio dyletswydd i gyflwyno hysbysiad gostegu);

(o) adran 99 (trolïau siopa gadawedig a throlïau bagiau gadawedig);

(p) adran 100 (adran 99: darpariaeth drosiannol);

(ph) yn Rhan 1 (cerbydau) o Atodlen 5 (diddymiadau), y diddymiadau i Ddeddf 1978 a Deddf 1984.

**Darpariaeth yn Neddf 2005 sy'n dod i rym ar y dyddiad y daw Deddf Priffyrdd 1980 (Gorchmynion Gatio) (Cymru) 2006 i rym**

**3.** I'r graddau nad yw eisoes mewn grym, mae adran 2 (gorchmynion gatio) yn dod i rym ar y dyddiad y mae Rheoliadau Deddf Priffyrdd 1980 (Gorchmynion Gatio) (Cymru) 2006 yn dod i rym.

**Darpariaethau yn Neddf 2005 sy'n dod i rym ar y dyddiad y daw Rheoliadau Tramgwyddau Amgylcheddol (Cosbau Penodedig) (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007 i rym**

**4.** Mae darpariaethau canlynol Deddf 2005 yn dod i rym ar y dyddiad y daw Rheoliadau Tramgwyddau Amgylcheddol (Cosb Benodedig) (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007 i rym—

(a) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 6 (pŵer i roi hysbysiadau cosb benodedig);

(b) adran 7 (pŵer i'w gwneud yn ofynnol bod enw a chyfeiriad yn cael eu rhoi);

(c) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 8 (defnyddio derbynebau cosb benodedig);

(ch) adran 9 (hysbysiadau cosb benodedig: materion atodol);

(d) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 10 (tramgwydd gadael cerbyd: hysbysiadau cosb benodedig);

(dd) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 19 (tramgwydd ysbwriel: hysbysiadau cosb benodedig);

(e) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 20 (hysbysiadau clirio ysbwriel);

(f) adran 21 (hysbysiadau rheoli ysbwriel ar y stryd);

(**5**) 1989 p. 14; amnewidiwyd adran 5 gan adran 37 o Ddeddf 2005.
(**6**) 1996 p. 37.

(ff) adran 22 (methu â chydymffurfio â hysbysiad: hysbysiadau cosb benodedig);

(g) adran 23 (rheolaethau ar ddosbarthu deunydd printiedig yn ddi-dâl);

(ng) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 24 (hysbysiadau cosb benodedig: darpariaeth gyffredin);

(h) adran 25 (eithrio atebolrwydd);

(i) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 28 (hysbysiadau cosb benodedig: swm y gosb benodedig);

(j) adran 29 (hysbysiadau cosb benodedig: pŵer i'w gwneud yn ofynnol bod enw a chyfeiriad yn cael eu rhoi);

(l) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 30 (hysbysiadau cosb benodedig: swyddogion awdurdodedig);

(ll) adran 31 (estyn hysbysiadau gwaredu graffiti i gwmpasu gosod posteri yn anghyfreithlon);

(m) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 38 (methu â dangos awdurdod: hysbysiadau cosb benodedig);

(n) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 45 (methu â darparu dogfennau: hysbysiadau cosb benodedig);

(o) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 48 (tramgwyddau sy'n ymwneud â chynwysyddion gwastraff: hysbysiadau cosb benodedig);

(p) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 52 (defnyddio derbynebau cosb benodedig);

(ph) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 59 (hysbysiadau cosb benodedig);

(r) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 60 (swm y cosbau penodedig);

(rh) adran 61 (pŵer i ofyn am enw a chyfeiriad);

(s) adran 62 (swyddogion cymorth cymuned etc.);

(t) adran 69 (dynodi ardaloedd hysbysu o larwm);

(th) adran 70 (tynnu dynodiad yn ôl);

(u) adran 71 (hysbysu deiliaid allweddi a enwyd);

(w) adran 72 (enwi deiliaid allweddi);

(y) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 73 (tramgwyddau o dan adran 71: hysbysiadau cosb benodedig);

(a2) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 74 (swm y gosb benodedig);

(b2) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 75 (defnyddio derbynebau cosb benodedig);

(c2) adran 76 (hysbysiadau cosb benodedig: pŵer i'w gwneud yn ofynnol bod enw a chyfeiriad yn cael eu rhoi);

(ch2) adran 77 (pŵer mynediad);

(d2) adran 78 (gwarant i fynd i mewn i fangre drwy rym);

(dd2) adran 79 (pwerau mynediad: darpariaethau atodol);

(e2) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 82 (tramgwyddau sŵn: hysbysiadau cosb benodedig);

(f2) adran 84 (estyn Deddf Sŵn 1996 i fangreoedd trwyddedig etc) at ddibenion dwyn i rym y darpariaethau yn Atodlen 1 nad ydynt yn cael eu cychwyn gan erthygl 2(m);

(g2) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 96 (defnyddio derbynebau cosb benodedig: awdurdodau haen uwch);

(ng2) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 97 (defnyddio derbynebau cost benodedig: awdurdodau haen is);

(h2) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 98 (adrannau 96 a 97: darpariaethau atodol);

(i2) Rhan 2 o Atodlen 5 (dirymiadau);

(l2) Rhan 9 o Atodlen 5 mewn perthynas â diddymu adran 119 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003(**7**).

**Darpariaethau yn Neddf 2005 sy'n dod i rym ar y dyddiad y daw Rheoliadau Gorchmynion Rheoli Cŵn (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2006 i rym**

**5.** Mae darpariaethau canlynol Deddf 2005 yn dod i rym ar y dyddiad y daw Rheoliadau Gorchmynion Rheoli Cŵn (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2006 i rym—

(a) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 55 (pŵer i wneud gorchmynion rheoli cwn);

(b) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 57 (tir y mae Pennod 1 yn gymwys iddo);

(c) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 58 (prif awdurdodau ac awdurdodau eilaidd);

(ch) adran 63 (pwerau sy'n gorgyffwrdd);

(d) adran 64 (is-ddeddfau);

(dd) adran 65 (Deddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996(**8**));

(e) Rhan 5 o Atodlen 5.

**Darpariaethau yn Neddf 2005 sy'n dod i rym ar y dyddiad y daw Rheoliadau Niwsansau Statudol (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2006 i rym**

**6.** Mae darpariaethau canlynol Deddf 2005 yn dod i rym ar y dyddiad y daw Rheoliadau Niwsansau Statudol (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2006 i rym—

(a) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 101 (niwsans statudol: trychfilod);

(b) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, adran 103(2)(a) a (4)(a) (adrannau 101 a 102: darpariaethau atodol).

**Darpariaethau yn Neddf 2005 sy'n dod i rym ar y dyddiad y daw Gorchymyn Niwsansau Statudol (Goleuo Artiffisial) (Dynodi Campau Perthnasol) (Cymru) 2006 i rym**

**7.** Mae darpariaethau canlynol Deddf 2005 yn dod i rym ar y dyddiad y daw Gorchymyn Niwsansau Statudol (Goleuo Artiffisial) (Dynodi Campau Perthnasol) (Cymru) 2006 i rym—

(a) adran 102 (niwsans statudol: goleuadau);

(b) adran 103 (adrannau 101 a 102: darpariaethau atodol) ac eithrio adran 103(2)(a) a (4)(a).

**Darpariaethau trosiannol: Deddf Gwaredu Sorod (Amwynder) 1978**

**8.**—(1) Nid yw'r diwygiadau a wnaed i Ddeddf 1978 gan—

(a) adran 11 (sy'n diwygio adran 3 o Ddeddf 1978);

(b) adran 12 (sy'n diwygio adran 4 o Ddeddf 1978);

(c) adran 13 (sy'n mewnosod adran 4A (canllawiau) yn Neddf 1978),

o Ddeddf 2005 yn effeithio ar weithrediad adrannau 3 a 4 o Ddeddf 1978 mewn perthynas â cherbyd y mae paragraff (2) yn gymwys iddo.

(**7**) 2003 p.26
(**8**) 1996 p.20.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gerbyd y mae awdurdod lleol, a hynny cyn 27 Hydref 2006—

(a) wedi rhoi hysbysiad mewn perthynas ag ef o dan adran 3(2) o Ddeddf 1978; neu

(b) wedi dodi hysbysiad arno o dan adran 3(5) o'r Ddeddf honno.

**Darpariaethau trosiannol: Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**

**9.**—(1) Nid yw'r diwygiadau a wnaed i Ddeddf 1984 gan—

(a) adran 15 (sy'n diwygio adran 99 o Ddeddf 1984);

(b) adran 16 (sy'n diwygio adran 101 o Ddeddf 1984);

(c) adran 12 (sy'n diwygio adran 103 o Ddeddf 1984),

o Ddeddf 2005 yn effeithio ar weithrediad adrannau 99, 101 a 103 o Ddeddf 1984 mewn perthynas â cherbyd y mae paragraff (2) yn gymwys iddo.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gerbyd—

(a) sydd ar ffordd ac y mae awdurdod wedi rhoi hysbysiad mewn perthynas ag ef cyn 27 Hydref 2006 o dan adran 99(3) o Ddeddf 1984;

(b) y mae awdurdod wedi dodi hysbysiad arno cyn 27 October 2006 o dan adran 99(4) o'r Ddeddf honno.

**Arbedion: Deddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996**

**10.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) ac er gwaethaf ei diddymu gan adran 65 o Ddeddf 2005 a Rhan 5 o Atodlen 5 iddi, mae Deddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996 yn parhau i fod yn effeithiol mewn perthynas ag unrhyw dir sy'n dir dynodedig yn union cyn y dyddiad y diddymir Deddf 1996 yn unol â rheoliad 5(e) o'r Gorchymyn hwn.

(2) Bydd unrhyw dir sy'n dir dynodedig yn union cyn diddymu Deddf 1996 gan erthygl 5(e) o'r Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn dir dynodedig ar y dyddiad y daw'r diddymiad yn weithredol—

(a) i'r graddau y mae gorchymyn rheoli cŵn (p'un a yw'n ymwneud â baeddu tir gan gŵn) a wnaed o dan adran 55 o Ddeddf 2005 yn gymwys mewn perthynas â'r tir hwnnw;

(b) os yw'r gorchymyn dynodi o dan sylw wedi'i ddirymu; neu

(c) os yw'r gorchymyn dynodi o dan sylw wedi'i ddiwygio yn y fath fodd ag i leihau maint y tir dynodedig, i'r graddau y mae hwnnw wedi'i leihau.

(3) O ran effaith barhaol Deddf 1996—

(a) mae adran 88(2) i (8) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**9**), fel y'i cymhwysir gan adran 4(2) a (3) o Ddeddf 1996, yn parhau i fod yn gymwys fel petai'r diwygiadau a wnaed gan adran 19 o Ddeddf 2005 i adran 88 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 heb eu gwneud;

(b) er gwaethaf eu diddymu gan Ran 5 o Atodlen 5 i Ddeddf 2005, mae paragraff 1(2)(c) o Atodlen 4 a pharagraff 1(2)(b) o Atodlen 5 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002(**10**) yn parhau i fod yn effeithiol;

(c) er gwaethaf ei diddymu gan Ran 9 o Atodlen 5 i Ddeddf 2005, bydd adran 119 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn parhau i fod yn effeithiol fel petai is-adrannau (2)(a), (3)(a) ac (c) a (4) o'r adran honno wedi'u dileu.

(**9**) 1990 p. 43; mae adran 119(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn darparu bod effaith adran 88(6)(a) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn peidio o ran bod yn gymwys i'r ail o'r Deddfau hyn ac, yn rhinwedd adran 4(2) o Ddeddf Cwn (Baeddu Tir) 1996, i gosbau penodedig am dramgwyddau cwn yn baeddu.

(**10**) 2002 p. 30.

(4) Yn yr erthygl hon—

mae i "tir dynodedig" yr ystyr a roddir i "*designated land*" yn adran 2(1) o Ddeddf 1996; ac

ystyr "gorchymyn dynodi" ("*designation order*") yw gorchymyn a wneir o dan adran 2(1) o Ddeddf 1996.

**Diwygio Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 1 ac Arbedion) (Cymru) 2006**

**11.** Yn erthygl 5(1) o Orchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 1 ac Arbedion) (Cymru) 2006(**11**) —

(a) ar ôl "adran 32" mewnosoder "(7) ac (8)"; a

(b) hepgorer "a Rhan 2 o Atodlen 2 iddi".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**12**).

*D. Elis-Thomas*

17 Hydref 2006 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**11**) O.S. 2006/768 (Cy. 75) (C. 18).

(**12**) 1998 p. 38.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau pellach yn Neddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 ("Deddf 2005") o ran Cymru.

Ar 27 Hydref 2006 mae erthygl 2 yn dwyn i rym (naill ai'n gyfan gwbl neu at y dibenion sy'n weddill) ddarpariaethau yn Neddf 2005 ynglŷn â'r canlynol:

(a) cerbydau gadawedig (adrannau 11 i 13);

(b) cerbydau sydd wedi'u parcio'n anghyfreithlon (adrannau 15 i 17);

(c) hysbysebion (adran 34);

(ch) cludo gwastraff (adran 37 (yn rhannol));

(d) casglu a gwaredu gwastraff gan awdurdod lleol (adran 50);

(dd) rheolaeth ar gŵn (adrannau 56, 66 a 67);

(e) larymau tresmaswyr clywadwy (adrannau 80 a 81);

(f) sŵn o fangreoedd (adrannau 83 a 84);

(ff) niwsansau sŵn statudol (adran 86); a

(g) trolïau siopa gadawedig a throlïau bagiau gadawedig (adrannau 99 a 100).

Mae erthygl 3 yn dwyn i rym adran 2 (gorchmynion gatio) o Ddeddf 2005 ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau cysylltiedig, sef Rheoliadau Deddf Priffyrdd 1980 (Gorchmynion Gatio) (Cymru) 2006, i rym.

Mae erthygl 4 yn dwyn i rym (naill ai'n gyfan gwbl neu at y dibenion sy'n weddill), a hynny ar y dyddiad y daw'r rheoliadau cysylltiedig, sef Rheoliadau Tramgwyddau Amgylcheddol (Cosb Benodedig) (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2006, i rym, ddarpariaethau Deddf 2005 ynglŷn â'r canlynol:

(a) tramgwyddau o ran parcio sy'n niwsans (adrannau 6 i 9):

(b) cerbydau gadawedig (adran 10);

(c) ysbwriel a sorod (adrannau 19 i 25);

(ch) graffiti a gosod posteri yn anghyfreithlon (adrannau 28 i 31);

(d) gwastraff (adrannau 38, 45, 48 a 52);

(dd) rheolaeth ar gŵn (adrannau 59 i 62);

(e) larymau tresmaswyr clywadwy (adrannau 69 i 79);

(f) swn o fangreoedd (adrannau 82 a 84);

(ff) defnyddio derbynebau cosb benodedig (adrannau 96 i 98).

Mae erthygl 5 yn dwyn i rym (naill ai'n gyfan gwbl neu at y dibenion sy'n weddill), a hynny ar y dyddiad y daw'r rheoliadau cysylltiedig, sef Rheoliadau Gorchmynion Rheoli Cŵn (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007, i rym, ddarpariaethau Deddf 2005 ynglŷn â rheolaethau ar gŵn.

Mae erthygl 6 yn dwyn i rym (naill ai'n gyfan gwbl neu at y dibenion sy'n weddill), a hynny ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau cysylltiedig, sef Rheoliadau Niwsansau Statudol (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2006 i rym, ddarpariaethau yn Neddf 2005 ynglŷn â chategori newydd o

niwsans statudol, sef trychfilod sy'n dod o fangreoedd diwydiannol, mangreoedd masnachol neu fangreoedd busnes ac sy'n niweidiol i iechyd neu'n niwsans.

Mae erthygl 7 yn dwyn i rym (naill ai'n gyfan gwbl neu at ddibenion sy'n weddill), a hynny ar y dyddiad y daw'r rheoliadau cysylltiedig, sef Rheoliadau Niwsansau Statudol (Goleuo Artiffisial) (Dynodi Campau Perthnasol) (Cymru) 2006, i rym, ddarpariaethau Deddf 2005 ynglŷn â chategori newydd o niwsans statudol, sef golau artiffisial sy'n cael ei belydru o fangre yn y fath fodd ag i fod yn niweidiol i iechyd neu'n niwsans.

Mae erthygl 8 yn cynnwys darpariaethau trosiannol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gerbyd, y mae awdurdod lleol wedi rhoi hysbysiad amdano o dan adran 3(2) o Ddeddf Gwaredu Sorod (Amwynder) 1978, neu y mae awdurdod lleol wedi dodi hysbysiad arno o dan adran 3(5) o'r Ddeddf honno, cyn 27 Hydref 2006 yn y naill achos neu'r llall, barhau i gael ei drin yn unol ag adrannau 3 a 4 o'r Ddeddf honno yn y modd yr oedd yr adrannau hynny yn gymwys cyn i ddarpariaethau o dan y Gorchymyn hwn ddod i rym.

Mae erthygl 9 yn cynnwys darpariaethau trosiannol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gerbyd sydd ar ffordd ac y mae awdurdod wedi rhoi hysbysiad amdano o dan adran 99(3) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 neu gerbyd y mae awdurdod wedi dodi hysbysiad arno o dan adran 99(4) o'r Ddeddf honno, cyn 27 Hydref yn y naill achos neu'r llall, barhau i gael ei drin yn unol ag adrannau 99, 101 a 103 o'r Ddeddf honno yn y modd yr oedd yr adrannau hynny'n gymwys cyn i ddarpariaethau o dan y Gorchymyn hwn ddod i rym.

Mae erthygl 10 yn gwneud arbedion y mae Deddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996 (p.20) yn parhau i fod yn gymwys odanynt mewn perthynas â thir sy'n dir dynodedig ("*designated land*") o dan y Ddeddf honno yn union cyn diddymu'r Ddeddf honno gan erthygl 5(e) o'r Gorchymyn hwn.

Mae erthygl 11 yn diwygio erthygl 5 o Orchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 1 ac Arbedion) (Cymru) 2006 (O.S. 2006 Rhif 768) (Cy. 75) (C. 18) ("Gorchymyn 2006"). Diddymodd Gorchymyn 2006 adran 32 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p.43) ("Deddf 1990") a Rhan 2 o Atodlen 2 iddi. Cynhwysodd erthygl 5 o Orchymyn 2006 arbedion a oedd yn parhau effaith yr adrannau a ddiddymwyd mewn perthynas â chwmnïau gwaredu gwastraff o dan reolaeth awdurdodau gwaredu gwastraff ar y dyddiad y daeth y diddymiad yn weithredol. Mae erthygl 11 o'r Gorchymyn hwn yn cyfyngu ar yr arbedion hynny gyda'r canlyniad mai dim ond adran 32(7) ac (8) o Ddeddf 1990 a fydd yn parhau i fod yn effeithiol mewn perthynas â'r cwmnïau hynny o 27 Hydref 2006 ymlaen.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae darpariaethau canlynol Deddf 2005 wedi'u dwyn i rym o ran Cymru drwy orchmynion cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y ddarpariaeth* | *Y dyddiad cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| Adran 2 — at ddibenion penodol | 16 Mawrth 2006 | 2006 / 768 (Cy.75) (C.18) |
| Adran 6 — at ddibenion penodol | 16 Mawrth 2006 | 2006 / 768 (Cy.75) (C.18) |
| Adran 8 — at ddibenion penodol | 16 Mawrth 2006 | 2006 / 768 (Cy.75) (C.18) |
| Adran 10 — at ddibenion penodol | 16 Mawrth 2006 | 2006 / 768 (Cy.75) (C.18) |

| *Y ddarpariaeth* | *Y dyddiad cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| Adran 13 — at ddibenion penodol | 16 Mawrth 2006 | 2006 / 768 (Cy.75) (C.18) |
| Adran 17 — at ddibenion penodol | 16 Mawrth 2006 | 2006 / 768 (Cy.75) (C.18) |
| Adran 19 — at ddibenion penodol | 16 Mawrth 2006 | 2006 / 768 (Cy.75) (C.18) |
| Adran 20 — at ddibenion penodol | 16 Mawrth 2006 | 2006 / 768 (Cy.75) (C.18) |
| Adran 24 — at ddibenion penodol | 16 Mawrth 2006 | 2006 / 768 (Cy.75) (C.18) |
| Adran 28 — at ddibenion penodol | 16 Mawrth 2006 | 2006 / 768 (Cy.75) (C.18) |
| Adran 30 — at ddibenion penodol | 16 Mawrth 2006 | 2006 / 768 (Cy.75) (C.18) |
| Adrannau 37 a 38 — at ddibenion penodol | 16 Mawrth 2006 | 2006 / 768 (Cy.75) (C.18) |
| Adrannau 45 i 48 — at ddibenion penodol | 16 Mawrth 2006 | 2006 / 768 (Cy.75) (C.18) |
| Adran 52 — at ddibenion penodol | 16 Mawrth 2006 | 2006 / 768 (Cy.75) (C.18) |
| Adran 53 | 16 Mawrth 2006 | 2006 / 768 (Cy.75) (C.18) |
| Adrannau 55 i 60 — at ddibenion penodol | 16 Mawrth 2006 | 2006 / 768 (Cy.75) (C.18) |
| Adran 67 — at ddibenion penodol | 16 Mawrth 2006 | 2006 / 768 (Cy.75) (C.18) |
| Adrannau 73 i 75 — at ddibenion penodol | 16 Mawrth 2006 | 2006 / 768 (Cy.75) (C.18) |
| Adran 82 — at ddibenion penodol | 16 Mawrth 2006 | 2006 / 768 (Cy.75) (C.18) |
| Adrannau 96 i 98 — at ddibenion penodol | 16 Mawrth 2006 | 2006 / 768 (Cy.75) (C.18) |
| Adrannau 101 i 104 — at ddibenion penodol | 16 Mawrth 2006 | 2006 / 768 (Cy.75) (C.18) |
| Atodlen 4, paragraff 4 | 16 Mawrth 2006 | 2006 / 768 (Cy.75) (C.18) |
| Atodlen 5, Rhan 2 (sbwriel a sorod) | 16 Mawrth 2006 | 2006/768 (Cy.75) C.18) |
| Atodlen 5, Rhan 4 (gwastraff) yn rhannol | 16 Mawrth 2006 | 2006 / 768 (Cy.75) (C.18) |

Mae darpariaethau canlynol Deddf 2005 wedi'u dwyn i rym yng Nghymru a Lloegr drwy orchmynion cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y ddarpariaeth* | *Y dyddiad cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| Adran 32 | 1 Gorffennaf 2005 | 2005 / 1675 (C.69) |
| Adrannau 42 i 44 | 18 Hydref 2006 | 2005 / 2896 (C.122) |
| Adran 49(1) a (3) | 7 Mawrth 2006 | 2006 / 656 (C.16) |
| Adran 49 (2) a (6) — at ddibenion penodol | 7 Mawrth 2006 | 2006 / 656 (C.16) |
| Adran 49 (2) a (6) — at ddibenion sy'n weddill | 6 Ebrill 2006 | 2006 / 656 (C.16) |
| Adran 49(4) a (9) | 6 Ebrill 2006 | 2006 /656 (C.16) |
| Adran 49 (8) — at ddibenion penodol | 6 Ebrill 2006 | 2006 / 656 (C.16) |
| Adrannau 87 i 95 | 1 Ionawr 2006 | 2005 / 3439 (C.144) |
| Atodlen 2 | 1 Ionawr 2006 | 2005 / 3439 (C.144) |
| Atodlen 3 | 1 Ionawr 2006 | 2005 / 3439 (C.144) |
| Atodlen 4, paragraff 3 yn rhannol | 6 Ebrill 2006 | 2006 / 656 (C.16) |
| Atodlen 5, Rhan 8 | 1 Ionawr 2006 | 2005 / 3439 (C.144) |

Mae'r Gorchmynion Cychwyn canlynol wedi'u gwneud o dan Ddeddf 2005 gan yr Ysgrifennydd Gwladol o ran Cymru a Lloegr—

Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 1) 2005 (O.S. 2005 Rhif 1675) (C.69);

Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru a Lloegr) 2005 (O.S. 2005 Rhif 2896) (C. 122);

Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 3) 2005 (O.S. 2005 Rhif 3439) (C. 144);

Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 4) 2006 (O.S. 2006 Rhif 656) (C. 16);

Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2006 (O.S. 2006 Rhif 1002) (C. 31);

Mae'r Gorchmynion Cychwyn canlynol wedi'u gwneud o dan y Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o ran Lloegr—

Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Lloegr) 2006 (O.S. 2006 Rhif 795) (C. 19);

Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 2) (Lloegr) 2006 (O.S. 2006 Rhif 1361) (C. 46);

Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 3) (Lloegr) 2006 (O.S. 2006 Rhif 2006) (C. 69).